CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

DISGRIFIAD SWYDD

Mae tair swydd ar gael

Teitl y Swydd:	**Goruchwyliwr Gwaith Priffyrdd, Tiroedd a Gwasanaethau Stryd**
Rhif y Swydd:	**HTR1794**
Cod Gwerthuso Swyddi:	**HAYLES156**
Gwasanaeth:	**Priffyrdd, Tiroedd a Gwasanaethau Stryd**
Lleoliad/Canolfan Waith:	**Aberhonddu, Penybont & Y Drenewydd**

mae hon yn swydd gweithio ar hyd y lle, sy'n golygu er bydd angen i'r sawl sydd yn y swydd weithio o leoliad penodol, byddan nhw'n gweithio ar draws y sir o wahanol leoliadau y rhan fwyaf o'r amser

Graddfa:	**Graddfa 10** **Pwynt 27 i Bwynt 29** **£39,481 i £41,177 y flwyddyn** **£20.46 i £21.34 yr awr**
Oriau'r contract:	**37 awr, Parhaol**
Atebol i:	**Rheolwr Priffyrdd, Tiroedd a Gwasanaethau Stryd: (Gogledd/De)**
Cyfrifoldeb dros:	**Staff Gweithredol**

Crynodeb

Nodwch ar eich cais pa leoliad rydych yn gwneud cais amdano

Am y rôl:

Cynllunio a goruchwylio cyflawni gweithredol ar gyfer sawl tîm amlswyddogaethol ac is-gontractwr. Sicrhau fod gwaith yn cael ei gyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon o ran terfynau amser a chyllidebau. Cofnodi gwaith a chynhyrchu mesurau manwl ac anfonebau. Sicrhau cydymffurfiaeth ag iechyd a diogelwch, goruchwylio'r gweithlu a chontractwyr, llunio asesiadau risg a chynlluniau ar gyfer y cyfnod adeiladu, datganiadau dull a systemau gwaith diogel. Adolygu, gwella prosesau, goruchwylio depos, sicrhau bod rheoliadau amgylcheddol a phrosesau yn cael eu dilyn, a bod diogelwch ar y safle yn cael ei gynnal.

Amdanoch chi:

- Profiad eang mewn gwaith adeiladu a chynnal a chadw priffyrdd. Tystysgrifau cymhwysedd perthnasol; cymwysterau neu brofiad sy'n cyfateb i NVQ/QCF Lefel 4.
- Profiad o amserlennu a rhaglennu gwaith a goruchwylio/rheoli staff
- Cymhwyster Goruchwyliwr Rheoli Traffig, Tystysgrif Iechyd a Diogelwch i safon leiaf o oruchwyliaeth a rheolaeth safle CITB neu gyfwerth / neu ymrwymiad i weithio tuag at gyflawni'r dystysgrif hon.
- Gwybodaeth am y fframwaith rheoleiddiol perthnasol, safonau a manylebau ar gyfer yr ardaloedd gwaith, e.e. Deddf Priffyrdd 1980 a rheoliadau amgylcheddol a deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r fanyleb, y gofynion a'r dull mesur ar gyfer gweithgareddau adeiladu a chynnal a chadw priffyrdd.
- Gwybodaeth dda am yr ystod o beiriannau ac offer sydd ar gael, a'r gallu i gynnig cyngor ar arferion gorau a sut i oresgyn problemau. Mae gwybodaeth am y rheoliadau sy'n ymwneud â gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm yn fantais.

Eich dyletswyddau:

- Rhaglennu, trefnu a goruchwylio'r darparu gwasanaethau gweithredol ar gyfer nifer o dimau amlswyddogaethol mewnol ac isgontractwyr.
- Paratoi rhaglenni gwaith dyddiol, wythnosol, misol a blynyddol ar gyfer darparu gwasanaethau priffyrdd rheng flaen sy'n cyd-fynd â chynlluniau a blaenoriaethau gwasanaeth HGSS, a'u hategu drwy ymateb yn ddyddiol i geisiadau brys am wasanaethau ymatebol.
- Drwy oruchwyliaeth effeithiol, sicrhau bod manyleb a meintiau cywir o wahanol ddeunyddiau, bod y gwaith priodol, isgontractwyr ac offer ar waith mewn modd amserol i symud gwaith ymlaen yn effeithlon. Sicrhau bod adnoddau staff wedi'u trefnu'n briodol ac wedi'u targedu'n effeithlon i fodloni gofynion a blaenoriaethau o fewn cyllidebau.
- Cynnal ac adolygu asesiadau risg, cynhyrchu Cynlluniau Cyfnod Adeiladu gweithredol a datblygu datganiadau dull gwaith a systemau gwaith diogel fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Adeiladu a Dylunio HSE a pholisïau iechyd a diogelwch mewnol. Cyfathrebu'r cynlluniau hyn yn effeithiol i'r staff gweithredol ar sail dyddiol ac wythnosol, gan sicrhau bod hyfforddiant staff gweithredol yn briodol ac yn gyfredol.
- Cynorthwyo'r Rheolwr drwy gynnal cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith gyda staff gweithredol ac i amlygu a delio â materion absenoldeb/perfformiad a chynnydd unrhyw gamau ffurfiol sy'n ofynnol.
- Sicrhau bod prosesau iechyd a diogelwch yn cael eu dilyn drwy reoli a goruchwylio gweithlu a chontractwyr, cynhyrchu asesiadau risg iechyd a diogelwch, cynlluniau cam adeiladu a systemau gwaith diogel. Cyfrannu at barhau i adolygu a gwella prosesau a mesurau.

Am ragor o wybodaeth am y swydd hon, gallwch gysylltu â
Phillip Harris
phillip.harris@powys.gov.uk
07795602929

Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

1. Rhaglennu, trefnu a goruchwylio darpariaeth gwasanaethau gweithredol ar gyfer nifer o dimau aml-swyddogaeth mewnol ac isgontractwyr.

2. Sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud yn effeithlon ac effeithiol o fewn terfynau amser a chyllidebau.

3. Cofnodi gorchmynion y dydd yn brydlon a chywir, cynhyrchu mesurau manwl ac anfonebau.

4. Sicrhau ein bod yn dilyn prosesau iechyd a diogelwch trwy reoli a goruchwylio'r gweithlu a chontractwyr. Cynhyrchu asesiadau risg iechyd a diogelwch, cynlluniau cyfnodau adeiladu a systemau gweithio'n diogel. Cyfrannu at adolygu a gwella prosesau a mesurau'n barhaus.

5. Goruchwylio a monitro safleoedd depo i sicrhau ein bod yn dal at brosesau a rheoliadau amgylcheddol, a'n bod yn cynnal diogelwch safleoedd.

6. Paratoi rhaglenni gwaith dyddiol, wythnosol, misol a blynyddol ar gyfer darparu gwasanaethau priffyrdd rheng flaen sy'n cwrdd â chynlluniau a blaenoriaethau gwasanaeth yr adran Priffyrdd, Tiroedd a Gwasanaethau Stryd (HGSS o hyn ymlaen). Ychwanegu at y cynlluniau hyn gydag ymatebion dyddiol i ateb gofynion gwasanaeth brys ac ymatebol.

7. Trwy oruchwylio effeithiol, sicrhau manylion a meintiau cywir defnyddiau amrywiol. Hefyd sicrhau bod peiriannau, is-gontractwyr a chyfarpar addas yn eu lle yn brydlon er mwyn i ni fedru bwrw ymlaen â gwaith yn effeithiol. Sicrhau bod adnoddau staff wedi eu trefnu'n gywir a'u targedu'n effeithiol i gwrdd â gofynion a blaenoriaethau o fewn cyllidebau.

8. Gwneud ac adolygu asesiadau risg, cynhyrchu Cynlluniau Cyfnodau Adeiladu gweithiol. Datblygu datganiadau dulliau gwaith a systemau gweithio'n ddiogel yn unol â Rheoliadau Dylunio ac Adeiladu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), a pholisïau iechyd a diogelwch mewnol. Rhaid i chi gyfathrebu'r cynlluniau hyn yn effeithiol i staff gweithredol yn ddyddiol ac wythnosol. Mae angen sicrhau hefyd bod hyfforddiant staff gweithredol yn addas a chyfoes.

9. Cynorthwyo'r Rheolwr HGSS/Swyddog Ardal y Depo trwy gynnal cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith â staff gweithredol. Dwyn sylw i faterion perfformiad/absenoldeb a mynd i'r afael â'r rhain a hynt camau gweithredu angenrheidiol.

10. Cyflenwi dyletswyddau Goruchwyliwr Priffyrdd HGSS yn ôl y galw yn ystod absenoldeb staff ac yn y blaen.

Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:
Nid oes angen gwiriad y DBS ar gyfer y swydd hon.

Gofynion Iechyd a Diogelwch
I fynd i'r afael â pholisïau a threfniadau iechyd a diogelwch mewn dull rhagweithiol er mwyn sicrhau bod safon uchel o arferion gwaith diogel yn cael ei chynnal.

Datganiad Cydraddoldebau:

Cefnogi a gweithredu egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal fel y dynodwyd ym Mholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.

Gofynion y Gymraeg
Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

SYLWCH;

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlyniol yn eich cais.

Profiad

Hanfodol

- Profiad helaeth o adeiladu priffyrdd a gwaith cynnal a chadw
- Profiad o amserlennu a rhaglennu gwaith
- Profiad o oruchwylio a rheoli staff

Dymunol

- Profiad o reoli gwaith o fewn cyfyngiadau amser ac ariannol

Gwybodaeth

Hanfodol

- Gwybodaeth dda o'r fframwaith rheoleiddio perthnasol a safonau a manylion gwaith priffyrdd e.e. Deddf Priffyrdd 1980, rheoliadau amgylcheddol a deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o fanylebau, gofynion a dulliau mesur ar gyfer adeiladu priffyrdd a gwaith a gwaith cynnal a chadw
- Dealltwriaeth o'r amrywiaeth o gyfarpar a pheiriannau sydd ar gael a'r gallu i gynnig cyngor ar arferion gorau a sut mae goresgyn problemau

Dymunol

- Gwybodaeth o Reoliadau Gyrwyr perthnasol i yrru Cerbydau Nwyddau Trwm.

Cofrestriadau, Cymwysterau a Hyfforddiant

Hanfodol

- Tystysgrifau perthnasol sy'n profi gallu, cymwysterau neu brofiad cyfwerth â NVQ/ QCF Lefel 4
- CITB neu gyfwerth, cymhwyster Goruchwyliwr Rheoli Traffig
- Tystysgrif Iechyd a Diogelwch i safon ofynnol Goruchwylio a Rheoli Safleoedd y CITB neu gyfwerth. Neu ymrwymiad i weithio tuag at gyflawni'r dystysgrif hon
- Rhaid i chi fedru ymweld â gwahanol safleoedd a meddu ar drwydded yrru lawn

Dymunol
- Tystysgrif Lefel 4 WAMITAB mewn rheoli Gwastraff ac Adnoddau

Rhinweddau Personal
Hanfodol
- Y gallu i reoli a blaenoriaethu gofynion sy'n gwrthdaro â'i gilydd
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar bob lefel
- Yr hyder i hybu newid a rhoi cyfarwyddiadau i staff a'u rheoli

Sgiliau
Hanfodol
- Y gallu i gynllunio ymlaen llaw a chyflawni rhaglenni ac adroddiadau i amserlenni tynn
- Y gallu i ymdrin â'r cyhoedd i dawelu'r dyfroedd mewn sefyllfaoedd a all fod yn anodd a dyrys
- Y gallu i dawelu achosion o wrthdaro rhwng staff a sefyllfaoedd eraill lle ceir anghydfod
- Sgiliau TG e.e. systemau Windows, systemau mapio a chyllid

Gofynion Eraill

Hanfodol

- Meddu ar drwydded yrru lawn

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

Rheolwr recriwtio: Adrian Jervis
Chwefror 2018

Ein gwerthoedd:

Proffesiynol
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

Cadarnhaol
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

Blaengar
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

Agored
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

Cydweithiol
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

Gair i gall:

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth
- Cwblhewch y cais yn gyflawn

Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 06/12/2026
Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.
Byddwn yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ar 08/12/2026. Byddwn yn anfon e-bost atoch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Bydd y cyfweliadau'n digwydd ar 17/12/2026

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.